PWYLLGORAU GWEITHREDOL A CHANOLOG

ADRODDIAD MONITRO YMWELIADAU

PWNC:	**GWEITHGAREWCH YMWELD RHWNG MIS GORFFENNAF A MIS MEDI 2019**
ADRODDIAD:	**SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHLEIFION A'R CYHOEDD/MONITRO A CHRAFFU**
STATWS:	**PAPUR GWYBODAETH**
CYSWLLT:	**SARA NEWNES**
DYDDIAD:	**HYDREF 2019**

DIBEN

Hysbysu Pwyllgorau am weithgarwch ymweld y CIC ac ymatebion y Bwrdd Iechyd yn dilyn ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019.

CEFNDIR

Cynhaliwyd ymweliadau ag adrannau cleifion allanol ar gyfer apwyntiadau trawma ac orthopedig, ysbytai cymunedol a wardiau acíwt cyffredinol fel rhan o gynllun blynyddol y CIC.

	Tudalen
Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd	2
Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019	8
Yn aros am ymateb i'r adroddiadau ymweld	21

Ymweliadau o'r chwarter blaenorol wedi'u diweddaru ag ymateb y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – Ward Raglan 2/4	**Dyddiad:**	21/6/2019

Y ward:

1. Roedd problemau parhaus ar y ward mewn perthynas â'r bath yn torri ac mae hyn yn cael effaith ar anghenion hylendid cleifion.
2. Gwelwyd bod llawr ystafell gawod yn fudr ac yn arogli'n wael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r bath yn gweithio'n iawn erbyn hyn.
2. Rheolwr Gwella Gwasanaeth i bennu'r gost o adnewyddu'r ystafell gawod a gofyn am gytundeb yn y cyfarfod Datblygu Gwasanaeth Gynaecoleg ym mis Medi.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd cleifion yn ymwybodol o'r cyfleusterau ar y ward lle y gallent wneud galwadau ffôn neu dreulio amser gydag ymwelwyr.
2. Roedd angen trwsio'r dodrefn yn ystafell y Prif Nyrs, lle roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â pherthnasau.
3. Gofynnodd CIC i'r ward gael ei hasesu er mwyn penderfynu a oedd angen cyfleusterau ymgysylltu pellach er mwyn atal cleifion rhag diflasu a theimlo'n unig.
4. Roedd ystafell ar gael i ymwelwyr, ond nid yn glir a oedd yr ystafell yn addas i'w ddefnyddio ar gyfer ymwelwyr.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff y wybodaeth ei hychwanegu at y daflen wybodaeth i gleifion.
2. Mae dodrefn newydd wedi cael eu gosod yn ystafell y Prif Nyrs.
3. Caiff radios eu prynu o'r Cronfeydd Elusennol a byddent ar gael ar wardiau ar gais.
4. Nid oes ystafell ar gael i ymwelwyr ar hyn o bryd oherwydd

strwythur y ward. Caiff yr argymhelliad hwn e drafod yn y cyfarfod Datblygu Gwasanaeth Gynaecoleg.

Ardal i gleifion:

1. Golygai mater parhaus gyda seinwyr nad oedd gan bob claf fynediad at seinwyr a oedd yn gweithio dros gyfnod o chwe mis.
2. Gofynnwyd am gostau i ddatrys y broblem ond nid oes amserlen ar gyfer gwneud yr atgyweiriadau.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae cloch alw ar gael i bob claf.
2. Gofynnwyd am y costau i atgyweirio'r system gynradd. Caiff y rhain eu trafod yn cyfarfod Datblygu Gwasanaeth Gynaecoleg.

Aelodau o staff:

1. Roedd lefelau boddhad uchel ymhlith y cleifion mewn perthynas â'r staff ar y ward.
2. Nid oedd trafodaethau am ofal a thriniaeth bob amser yn gyfrinachol, gan fod claf wedi nodi iddo glywed trafodaethau am gleifion eraill yn digwydd yn y coridor.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Dylid rhannu'r adborth cadarnhaol â'r tîm drwy'r adborth misol ym mis Awst.
2. Caiff adborth am gynna trafodaethau mwy cyfrinachol ei rannu drwy'r adborth misol ym mis Awst.

Cysur a hylendid:

1. Dywedodd un claf ei fod wedi gofyn am flanced ychwanegol ond bod y staff yn rhy brysur ar y pryd.
2. Ni roddwyd gwybod i glaf am leoliad yr ystafell ymolchi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff adborth ei rannu drwy'r adborth misol ym mis Awst.
2. Caiff adborth ei rannu drwy'r adborth misol ym mis Awst.

Dillad gwely:

1. Dywedodd y staff nad oedd gynau nos ar gael ac y gall gynau ysbyty effeithio ar urddas y claf.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff gynau nos eu harchebu drwy Oracle ar gyfer y cleifion sydd eu hangen.

Darparu prydau:

1. Roedd gan gleifion farn amrywiol ar ansawdd a thymheredd y bwyd.
2. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r byrbrydau a oedd ar gael drwy gydol y dydd a'r nos.
3. Roedd y cleifion o'r farn nad oedd eu jygiau dŵr yn cael eu newid yn ddigon aml.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae adborth am y bwyd wedi'i anfon ymlaen at y Rheolwr Gwasanaethau Gwesty ar gyfer Ysbyty Nevill Hall. Bydd archwiliad i ddangos gwelliant yn cael ei gynnal ym mis Medi 2019.
2. Rhoddir rhestr byrbrydau i'r holl gleifion y rhagnodir byrbrydau iddynt gan ddeietegydd a chaiff byrbrydau eu darparu iddynt yn rheolaidd. Caiff byrbrydau eu darparu gan staff y gegin, a bydd y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y bydd byrbrydau ar gael i unrhyw gleifion sy'n gofyn amdanynt.
3. Caiff adborth ei rannu drwy'r adborth misol ym mis Awst.

Casgliad:

1. Teimlwyd y byddai cloc o gymorth i gleifion ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

2. Mae cloc wedi'i archebu.

Ymweliad	Ysbyty Cas-gwent – Ward Caerwent	**Dyddiad:**	26/6/2019

Y ward:

1. Ni chafodd pob claf wybodaeth am y ward a'r cyfleusterau sydd ar gael.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Bydd y staff yn cyflwyno'r ward i'r cleifion wrth iddynt gael eu derbyn. Bydd hysbysfwrdd yn esbonio'r hyn y gall y cleifion ei ddisgwyl gan y ward yn cael ei ddatblygu. Mae'r ward wrthi'n datblygu Taflen Wybodaeth i Gleifion.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael, megis teledu, papurau newydd a gweithgareddau ar y ward.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r ward wrthi'n datblygu Taflen Wybodaeth i Gleifion a gaiff ei chynnwys yn y pecyn derbyn a roddir i gleifion.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Aelodau o staff:

1. Roedd adborth y cleifion am y staff yn gadarnhaol iawn.
2. Roedd y cleifion o'r farn bod prinder staff ar adegau.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff sylwadau cadarnhaol eu rhannu â'r staff ar lafar a thrwy gylchlythyr misol.
2. Ym mis Medi 2019, bydd Ward St Arvans a Chaerwent yn ymuno i

wneud un uned a fydd yn cynnwys 32 o welyau. Dylai hyn helpu gyda'r gwaith staffio a rhedeg yr uned gyfan yn hytrach na dwy uned lai. Darparodd y Bwrdd Iechyd fanylion am salwch, recriwtio a swyddi gwag cyfredol.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Darparu prydau:

1. Nid oedd pob claf yn fodlon ar dymheredd y bwyd na'r dewis o fwyd a oedd ar gael ar y ward.
2. Nid oedd cleifion bob amser yn cael cynnig cyfleusterau glanhau dwylo cyn prydau bwyd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae tîm y ward wedi bod yn gweithio gyda'r adran ddeietegol a'r adran gyfleusterau i lunio bwydlen newydd gyda mewnbwn y cleifion. Pan fydd y ddwy ward yn cyfuno, caiff y bwyd ei ddarparu'n uniongyrchol o gegin ar y ward yn hytrach nag o droli bwyd, a ddylai fynd i'r afael â'r problemau o ran tymheredd.
2. Atgoffwyd y staff i gynnig cyfleusterau glanhau dwylo a helpu'r cleifion yn ôl yr angen.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 – wedi cael ymateb y Bwrdd Iechyd

Ymweliad	Ysbyty Ystrad Fawr – 1/1 Bedwas	**Dyddiad:**	5/07/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Nodwyd nad oedd gan y ward system dolen sain ar waith.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Os oes gan y cleifion ddyfais wrando sy'n gydnaws â'r system dolen sain ar y ward, dylent allu clywed lleisiau'n gliriach neu, os nodwyd bod angen y gwasanaeth hwn arnynt, gofynnir am set o'r adran Awdioleg.

Y ward:

1. Roedd taflenni am y weithdrefn gwyno'n cael eu hargraffu ar adeg yr ymweliad ac felly nid oeddent ar gael i gleifion.
2. Ni chafodd y cleifion Daflen Wybodaeth i Gleifion i roi gwybodaeth iddynt am gyfleusterau'r ward ac ati.
3. Roedd y tîm a oedd yn ymweld â'r ward o'r farn y gallai fod yn anodd cael gafael ar linyn y seiniwr yn y toiled i bobl anabl wrth eistedd ar y toiled.
4. Gwelwyd bod blwch pethau miniog mewn ardal gyhoeddus heb ei gloi.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae taflenni am y weithdrefn gwyno wedi'u hargraffu ac yn cael eu harddangos mewn daliwr taflenni wrth ymyl yr ystafell ddydd.
2. Dylai cleifion gael eu cyfeirio i'r ward wrth iddynt gael eu trosglwyddo i Ward Bedwas. Hefyd, mae taflenni'n cael eu hargraffu a'u storio mewn daliwr taflenni yn y coridor.
3. Adolygwyd lleoliad y llinyn a gwelwyd ei fod o fewn cyrraedd cleifion sy'n eistedd ar y toiled.

4. Nid yw biniau pethau miniog yn cael eu cloi nes eu bod yn barod i'w gwaredu; mae ganddynt nodweddion diogelwch er mwyn atal unrhyw un rhag rhoi ei law y tu mewn iddynt.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau ar y ward i'w hatal rhag diflasu a theimlo'n unig.
2. Roedd cleifion mewn ystafelloedd unigol ac nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau na theledu y gellid eu defnyddio. Nid oedd gan rai cleifion bapurau newydd, radio na dyfeisiau electronig.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r wybodaeth ar gael yn y Daflen Wybodaeth i Gleifion sydd wedi'i lleoli yn y daliwr taflenni yn y coridor.
2. Mae Bedwas yn ward arhosiad byr, ac felly nid oes cyllid ar gael ar gyfer ffisiotherapi na chydlynydd gweithgareddau. Pan gafodd cydlynydd gweithgareddau ei dreialu, ystyriwyd nad oedd ei angen ar gyfer y grŵp o gleifion. Mae setiau teledu wedi cael eu fandaleiddio ac felly mae'r unig deledu bellach yn yr ystafell ddydd. Mae gan y ward oriau ymweld agored a gwirfoddolwyr sy'n sgwrsio â chleifion. Mae llyfrau, posau a radios ar gael, ond mae llawer o'r radios wedi cael eu dwyn. Anogir y staff i helpu'r cleifion i'r ystafell ddydd, lle bo hynny'n bosibl, ac mae gan bob claf sydd ag anghenion gofal uwch siart gweithgareddau.

Ardal i gleifion:

Dim argymhellion.

Aelodau o staff:

1. Dywedodd cleifion nad oeddent i gyd o'r farn bod nifer y staff yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion yn ystod y dydd a'r nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Yn ystod yr ymweliad, roedd lefel staffio y cytunwyd arni ar y ward.

Rhoddodd y Bwrdd Iechyd fanylion am y swyddi gwag a nododd fod y broses recriwtio ar gyfer y ward Bedwas yn llwyddiannus iawn. Gan mai ystafelloedd unigol yn unig a geir yn Ysbyty Ystrad Fawr, gall hyn olygu nad yw'r cleifion yn gweld y staff yn rheolaidd, er gwaethaf y ffaith bod y nifer ofynnol o staff yn gweithio.

Cysur a hylendid:

Dim argymhellion.

Dillad gwely:

1. Dywedodd y staff nad oes digon o glustogau i gleifion yn gyffredinol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae digon o glustogau ar gael, ond yn aml maent yn cael eu trosglwyddo o'r ward gyda'r claf. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i ddychwelyd clustogau gyda'r troli i ward Bedwas.

Darparu prydau:

Dim argymhellion.

Ymweliad	Ysbyty Brenhinol Gwent – C5 Dwyrain	**Dyddiad:**	10/07/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Dywedodd y staff os nad oedd claf yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf y byddent yn gofyn i aelodau'r teulu gyfieithu.
2. Dywedodd y staff nad oedd gan y ward system dolen sain.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Caiff y staff eu hatgoffa bod gwasanaeth cyfieithu 24/7 ar gael a sut i gael gafael arno pe bai angen gwasanaethau cyfieithu ar glaf.
2. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod system dolen sain lawn weithredol ar waith ar y ward. Caiff y staff eu hatgoffa bod y system ar gael a rhoddir gwybod iddynt sut i'w defnyddio.

Y ward:

1. Ni chadarnhawyd pwy oedd y tîm ymweld cyn bod aelodau'n cael mynediad i'r ward.

2. Ni chafodd pob claf daflen wybodaeth, nac ychwaith wybodaeth ar lafar am y ward a'r cyfleusterau sydd ar gael.

3. Nid oedd dangosfwrdd y cleifion yn gyfredol ar adeg yr ymweliad.

4. Dywedodd y staff nad oedd y system fferylliaeth Omnicell yn yr ystafell glinigol yn gweithio.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Atgoffwyd y staff am bwysigrwydd cadarnhau pwy sy'n ymweld â'r ward.
2. Dylid cyfeirio'r cleifion i'r ward a rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleusterau yn ystod y broses dderbyn. Dylai fod amser hefyd i gleifion ofyn cwestiynau. Mae taflen ar gael ac atgoffwyd y staff i ddarparu'r rhain wrth i'r claf gael ei dderbyn.
3. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgoffa prif nyrs y ward i ddiweddaru'r dangosfwrdd yn ddyddiol.
4. Mae'r system fferylliaeth Omnicell yn cael ei chynnal gan yr adran

fferylliaeth a chontractwyr allanol. Nid yw'n gweithio'n iawn.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael ar y ward er mwyn eu helpu i deimlo'n llai diflas ac unig.
2. Nid oedd yn glir a oedd y ward yn cynnig digon o gyfleusterau/gweithgareddau i leihau diflastod ac unigrwydd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Dylid cyfeirio'r cleifion i'r ward a rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleusterau yn ystod y broses dderbyn. Dylid hefyd ddangos i berthnasau ble mae'r ystafell perthnasau.
2. Mae cleifion ar y ward yn aml yn brysur gyda therapïau amrywiol. Ceir ystafell ddydd sy'n cynnwys teledu, llyfrau a gemau. Mae radios ar gael a gall y Tîm Cyswllt Seiciatrig Oedolion Hŷn ddarparu cymorth os yw cleifion yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Mae'r ward yn cynnig hyblygrwydd o ran oriau ymweld ac mae Ymgyrch John's yn cael ei defnyddio. Mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ynghylch gwasanaeth gwirfoddolwyr.

Ardal i gleifion:

1. Roedd te a choffi ar gael i ymwelwyr, ond nid oedd tegell ar gael nac unrhyw ffordd arall o gael dŵr poeth.
2. Nid oedd gan bob claf seiniwr llawn weithredol a oedd o fewn cyrraedd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae tegell ar gael yn yr ystafell ymwelwyr.
2. Caiff archwiliadau wythnosol eu cwblhau er mwyn sicrhau bod seinwyr yn gweithio. Atgoffwyd y staff i osod y seinwyr o fewn cyrraedd y cleifion; caiff arolygiadau misol eu cynnal er mwyn cadarnhau bod y staff yn cydymffurfio â hyn.

Aelodau o staff:

1. Roedd rhai o'r cleifion o'r farn nad oedd y lefelau staffio yn ystod y dydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Yn ystod yr ymweliad, roedd staffio ar y lefel y cytunwyd arni. Pan fydd diffygion, cânt eu hôl-lenwi â staff banc neu staff asiantaeth. Mae Tîm Gofal Craidd yn cael ei gyflwyno i gefnogi anghenion y cleifion.

Cysur a hylendid:

1. Ni allai pob un o'r cleifion olchi mor aml ag y byddent yn ei hoffi. Dywedodd un claf nad oedd yn gallu golchi am ei fod yn 'gaeth i'r gwely'.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Anogir pob claf i fod mor annibynnol â phosibl ond rhoddir cymorth yn ôl yr angen. Caiff y staff eu hatgoffa i ddarparu gofal yn ôl yr angen.

Dillad gwely:

1. Nid oedd gan y ward gyflenwad digonol o ddillad gwely bob amser.
2. Weithiau, roedd y dillad gwely yn cael eu dosbarthu'n rhy hwyr.
3. Nid oedd ansawdd y dillad gwely bob amser yn foddhaol.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Defnyddir y polisi uwchgyfeirio materion dillad gwely y tu allan i oriau pan na fydd digon o ddillad gwely.
2. Cyflwynwyd cais i ddosbarthu'r dillad gwely yn gynharach.
3. Adolygwyd ansawdd y dillad gwely ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

Darparu prydau:

1. Nid oedd cyfleusterau glanhau dwylo ar gael i bob claf cyn iddynt fwyta.
2. Nid oedd pob claf yn ymwybodol o sut i gael byrbrydau rhwng prydau bwyd.
3. Nododd rhai o'r cleifion nad oedd ansawdd na thymheredd y prydau bwyd a ddarparwyd yn dda.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd cynnig cyfleusterau golchi dwylo neu weips golchi dwylo cyn pob pryd o fwyd.

2. Bydd y staff yn sicrhau bod pob claf yn ymwybodol o'r byrbrydau sydd ar gael iddynt a sut i wneud cais amdanynt.

3. Atgoffwyd y staff o'r gofyniad i brofi a chofnodi tymheredd y bwyd ar dri phwynt gwahanol yn ystod y gwasanaeth. Mae'r bwyd a gynigir wedi'i safoni ar draws pob safle ac yn unol â Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan er mwyn sicrhau bod ryseitiau'n gyson ac yn diwallu anghenion maethol y claf.

Adborth arall

1. Dywedodd nifer o'r cleifion fod y lefelau sŵn yn ystod y nos yn anfoddhaol o bryd i'w gilydd ac na ddylid derbyn cleifion swnllyd yn ystod y nos.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae gwasanaethau strôc wedi'u canoli ar safle Ysbyty Brenhinol Gwent ac, o ganlyniad, C5 Dwyrain yw'r ward derbyn strôc acíwt. Felly, mae'n anodd mynd i'r afael â'r broblem sŵn o ganlyniad i dderbyn cleifion yn ystod y nos.

Ymweliad	Ysbyty Nevill Hall – Pen y Cwm	**Dyddiad:**	23/7/2019

Canfyddiadau:

1. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ystyried y cyfnodau amrywiol pan fo opsiynau ynghylch dewisiadau ysbytai a chynlluniau genedigaeth yn cael eu trafod gyda menywod er mwyn sicrhau cyfathrebu cyson a nodi pryd y gall menywod ddisgwyl trafod yr opsiynau hyn.

2. Gofynnir i AGIC ystyried yr adborth clinigol unigol gan gyfranogwr ynghylch rhyddhau claf o'r ysbyty ar ôl i'w dŵr dorri.

3. Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu'r ganmoliaeth uchel roedd gan gyfranogwyr i'w roi mewn perthynas â'r staff a'u sylwadau cadarnhaol uchod.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Ar ôl adolygu'r adroddiad, nodwyd bod problem gydag un fenyw a'i chynllun genedigaeth o bosibl. Caiff y bydwragedd eu hatgoffa o ganllawiau NICE a bydd hyn yn cael ei adolygu drwy'r Archwiliad o nodiadau blynyddol.

2. Bydd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn codi'r mater gydag AGIC gan nad yw'r mater hwn wedi'i nodi yn yr adroddiad drafft ffurfiol a gafwyd gan AGIC yn dilyn yr ymweliad dirybudd ag Ysbyty Nevill Hall.

3. Cafodd yr adroddiad CIC ei rannu â thimau mamolaeth i'w raeadru.

Ymweliad	Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent	**Dyddiad:**	30/8/2019

Canfyddiadau:

1. Mae'n ymddangos nad oes gan yr adran ddigon o le storio.
2. Nid oedd bwlb golau yn gweithio yn y toiledau menywod.
3. Nid oedd gan bob claf amcan o'r amser y gallai fod yn disgwyl iddynt aros.
4. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr ymweliad yn canu clodydd y staff sy'n gweithio yn yr adran.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae ardaloedd yn yr adran wedi cael eu troi'n ystafelloedd clinigol a storfeydd, ond mae galw cynyddol am dderbyniadau brys bob blwyddyn. Atgoffwyd y staff i sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro'r llwybrau pan na fydd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio.
2. Mae bwlb golau newydd wedi cael ei osod.
3. Dylai'r cleifion gael eu hysbysu am amseroedd aros disgwyliedig pan fyddant yn cofrestru wrth gyrraedd yr adran, yn ystod brysbennu a phan fydd staff yn rhoi gofal. Caiff y staff eu hatgoffa am hyn. Dylid defnyddio system yr uchelseinydd i gyfleu'r neges os bydd oedi ac mae sgrin wybodaeth electronig i gleifion wedi cael ei harchebu er mwyn dangos amseroedd aros yn yr adran.
4. Mae adroddiad y CIC wedi cael ei rannu â'r staff nyrsio a'r staff meddygol, ac mae copi ar gael yn yr ystafell staff.

Ymweliad	Uned Llawdriniaeth Dydd Ysbyty Brenhinol Gwent	**Dyddiad:**	3/09/2019

Gwybodaeth am y ward:

1. Roedd nifer fawr o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o'r uned neu eu trosglwyddo i ward a fyddai'n gweddu'n well i'w hanghenion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Tynnir sylw'r llywiwr llawfeddygol a'r tîm llif cleifion at y cleifion sydd angen gwely yn dilyn llawdriniaeth. Caiff trosglwyddiadau eu hwyluso lle bo angen ond ceir oedi oherwydd pwysau ar welyau. Caiff gofynion brys o ran gwelyau eu huwchgyfeirio i'r rheolwr llif cleifion. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i gleifion os bydd oedi na ellir ei osgoi.

Yr uned:

1. Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos wrth fynedfa'r uned, gan gynnwys y weithdrefn gwyno.
2. Ni chafodd pob claf wybodaeth am yr uned ac felly roeddent yn ansicr o'r cyfleusterau a oedd ar gael iddynt.
3. Cafodd rhai cleifion broblemau wrth gyfathrebu a arweiniodd at oedi cyn iddynt gael triniaeth, yn eu barn nhw.
4. Roedd rhai cleifion o'r farn nad oedd digon o le i ymwelwyr o ganlyniad i ddiffyg lle a bod y gwelyau yn agos at ei gilydd.
5. Dywedodd staff fod ganddynt bryderon am addasrwydd y troli meddyginiaeth am ei fod yn fach o gymharu â maint yr uned.
6. Nid oedd yr uned i'w gweld yn lle addas i gleifion aros yn yr hirdymor, ond nid yw bob amser yn bosibl trosglwyddo cleifion i ward fwy addas.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn glir erbyn hyn; mae enwau uwch-aelodau o staff y ward hefyd yn cael eu harddangos.
2. Mae taflen wybodaeth yn cael ei datblygu, ac mae hysbysfyrddau

gwybodaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.

3. Mae staff y ward ar gael drwy'r dydd i ateb unrhyw gwestiynau, a gallant roi manylion am sut i gysylltu ag ysgrifenyddion Meddygon Ymgynghorol er mwyn trefnu trafodaeth amserol gyda'r timau perthnasol.

4. Mae'r uned yn cynnwys digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer cleifion arhosiad byr ac mae'n defnyddio'r lle i drin uchafswm o 17 o gleifion. Yn ystod cyfnodau pan fydd y galw yn uchel a phan fydd prinder lle ar safle'r ysbyty, defnyddir ardal i ddarparu ar gyfer cleifion nad ydynt yn gleifion lawdriniaeth dydd. Caiff meini prawf llym eu rhoi ar waith a chaiff cleifion eu symud cyn gynted â phosibl.

5. Mae fferyllydd yr uned wedi lleihau faint o feddyginiaeth sy'n cael ei chadw ar y troli. Mae meddyginiaethau gorlif a stoc ychwanegol yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo.

6. Cynlluniwyd yr uned ar gyfer arhosiad byr, ond mae ystafell gawod wedi cael ei hychwanegu at yr uned. Mae byrbrydau a diodydd ar gael, ac mae cysylltiadau wedi cael eu gwneud â chyfleusterau i ddarparu bwyd a diod yn yr adran.

Diflasu a theimlo'n unig:

1. Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd adolygu a oedd y cyfleusterau i fynd i'r afael â diflastod ac unigrwydd yn ddigonol ar gyfer yr uned.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae teledu ar gael. Mae angen teclyn rheoli newydd, ond yn y cyfamser, gellir newid y sianel â llaw. Trefnwyd y bydd y troli papur newydd yn galw i mewn i'r uned fel rhan o'i rowndiau.

Ardal i gleifion:

1. Nid oedd gan bob claf seiniwr a oedd yn gweithio ac o fewn cyrraedd.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae pob un o'r seinwyr wedi cael eu profi ac maent yn gweithio'n iawn. Atgoffwyd y staff i sicrhau bod y seinwyr o fewn cyrraedd ac i ddarparu seinwyr newydd ar ôl darganfod nad yw seinwyr yn

gweithio.

Aelodau o staff:

1. Nid oedd y staff bob amser yn cyflwyno eu hunain i'r cleifion cyn darparu gofal a/neu driniaeth.
2. Nid oedd pob claf o'r farn bod y staff yn gwrando arnynt wrth wneud penderfyniadau.
3. Dywedodd rhai o'r cleifion eu bod o'r farn nad oedd nifer y staff ar ddyletswydd yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae gan bob aelod o staff fathodynnau enw ac fe'u hatgoffwyd o bwysigrwydd cyflwyno eu hunain a chael cydsyniad cyn bod unrhyw ymyriad yn mynd rhagddo. Mae'r uned hefyd yn dyrannu carfannau o gleifion i bob nyrs er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o bwy yw eu nyrs am y dydd.
2. Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd cynnwys y cleifion a'u perthnasau wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gofal.
3. Adolygwyd y trefniadau staffio a dyrannwyd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd ychwanegol i'r sifft dydd. Mae cynorthwyydd theatr hefyd yn helpu yn yr uned rhwng 5am a 6am drwy ddarparu diodydd i gleifion a chynnal arsylwadau. Ceisir staff ychwanegol yn seiliedig ar aciwtedd.

Cysur a hylendid:

1. Dywedodd rhai o'r cleifion nad oedd ganddynt ddigon o flancedi i fod yn gyffyrddus ac nad oeddent yn gallu golchi mor aml ag yr hoffent.
2. Roedd nifer o'r cleifion wedi mynd â chlustogau i mewn o gartref, a dywedodd eraill y byddent yn hoffi cael mwy o glustogau i fod yn gyffyrddus.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod y cleifion mor gyffyrddus â phosibl tra byddant yn yr uned.

2. Prynwyd clustogau er mwyn sicrhau bod gan bob troli glustog yn ychwanegol at yr un a ddarperir fel arfer i gleifion llawdriniaethau dydd. Mae'r staff wedi cael gwybod ble y gellir dod o hyd i'r rhain.

Dillad gwely:

Dim argymhellion.

Darparu prydau:

1. Cafwyd adborth cymysg gan y cleifion am y bwyd gyda rhai cleifion yn dweud ei fod '*yn wael iawn*'.

2. Dywedodd rhai o'r cleifion nad oedd eu jwg dŵr yn cael ei newid mor aml ag yr hoffent er mwyn sicrhau bod y dŵr yn ffres.

Ymateb y Bwrdd Iechyd:

1. Mae'r Prif Nyrs a Rheolwr yr uned yn gweithio'n agos gyda'r adran gyfleusterau i wella'r cyfleusterau arlwyo. Nid ystyrir bod yr ardal yn addas ar gyfer troli bwyd poeth oherwydd yr amgylchedd a'r diffyg lle.

2. Y staff nyrsio sy'n newid y jygiau dŵr ar hyn o bryd. Mae troli gweini a fydd yn darparu jygiau dŵr a rowndiau diodydd yn rheolaidd yn cael ei ystyried. Nid yw'n bosibl cael byrddau dros welyau yn yr uned, felly mae dulliau amgen o ddarparu diodydd i gleifion yn cael eu hystyried.

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019 – *aros am ymateb i'r adroddiad*

	Disgwyl ymateb
Ysbyty Nevill Hall – 3/2 Usk	29.11.2019
Ysbyty Nevill Hall – 4/3 Gwent	10.12.2019
Ysbyty Nevill Hall – 2/3 Nantyglo	29.11.2019

Ymweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Medi 2019 – *heb gyflwyno adroddiad eto*

	Dyddiad yr ymweliad
Cyflwynwyd pob adroddiad	